Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad Ymyrraeth Cymru (WIRe)

## Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) canllaw i ymarferwyr ymyrraeth



Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant o dan 5 oed. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd ac addysg. Mae'n rhoi crynodeb o'r ymchwil a wnaed i nodi ymyriadau sy'n debygol o fod o fudd i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) plant. Mae manylion pob un o'r ymyriadau wedi'u hamlinellu a'u crynhoi.




# Gwybodaeth cefndirol

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad parhaus i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Rhan bwysig o'r rhaglen 'Siarad gyda Fi' (**Siarad gyda Fi | LLYW.CYMRU**) yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle gorau i ddatblygu sgiliau SLC cryf, gan arwain at ganlyniadau gwell yn ystod plentyndod hŵn ac fel oedolyn.

Gellir darparu ymyriadau ar lefel gyffredinol sy'n addas i bawb. Neu ar lefel poblogaeth sy'n addas ar gyfer grwpiau arbennig o bobl e.e plant sy'n cael eu geni'n gynamserol. Mae lefelau ymyrraeth wedi'u targedu hefyd ac yng nghyd-destun SLC, mae'r rhain yn addas ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt ryw elfen o angen lleferydd, iaith neu gyfathrebu (SLCN). Er y bydd angen ymyrraeth arbenigol ar rai plant, a ddarperir gan wasanaethau arbenigol, mae gan lawer o blant anghenion dros dro o ran datblygu SLC y gellid eu dileu gydag ymyrraeth gynnar ar lefelau cyffredinol, poblogaeth neu dargededig. Mae Ffigur 1 yn rhoi mwy o fanylion am lefelau ymyrraeth.

## Ffigur 1: Haenau Ymyrraeth




*(Llywodraeth Cymru, 2020)*

Nod yr ymchwil hwn oedd nodi ymyriadau sydd â thystiolaeth gref o wella canlyniadau SLC ar gyfer plant 0 i 4 mlydd, 11 mis oed ac y gellid eu mabwysiadu neu eu haddasu i'w defnyddio ledled Cymru ar lefel gyffredinol, boblogaeth ac wedi'i thargedu. Cynhaliwyd tri adolygiad cwmpasu cyflym, pob un yn mynd i'r afael ag amcan penodol:

1. **Adolygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer ymyriadau iechyd meddwl amenedigol/babanod a nodi elfennau SLC o'r ymyriadau hyn**
2. **Adolygu'r dystiolaeth gyfredol o ymyriadau rhianta a nodi elfennau'r SLC o'r ymyriadau hyn**
3. **Adolygu'r dystiolaeth gyfredol ynghylch ymyriadau SLC sydd ar gael ar lefelau Cyffredinol, Poblogaeth ac wedi'u Targedu.**

Nododd y tri adolygiad cwmpasu cyflym amrywiaeth o ymyriadau a gwerthuswyd y dystiolaeth ar gyfer y rhain. Er mwyn cael eu cynnwys yn y canlyniadau roedd angen i'r ymyriadau fod yn llawlyfr h.y. mae'n rhaglen sydd wedi'i chynhyrchu at ddefnydd masnachol ac sy'n dod gyda llawlyfr i'w ddefnyddio. Roedd angen tystiolaeth lefel 1 o'i effeithiolrwydd, fel diffinnir gan Grŵp Canlyniadau Clinigol Gweithrediaeth y GIG (Eccles a Mason, 2001) h.y bu o leiaf un hap-dreial rheoledig lle nodwyd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer mesurau SLC. Mae hyn yn sicrhau bod gan y rhaglen dystiolaeth wyddonol gadarn o ba mor dda y mae'n gweithio. Cynhwyswyd ymyriadau dim ond lle y gallent gael eu darparu gan bobl nad oeddent yn arbenigwyr SLC.



# Canlyniadau

Nodwyd cyfanswm o 15 o ymyriadau gwahanol. Cafodd pob un ei gategoreiddio fel cyffredinol, poblogaeth neu dargededig. Nodwyd tri ymyriad ar gyfer amcan 1, tri ar gyfer amcan 2, a naw ar gyfer amcan 3.

## Amcan 1

### Adolygu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ar gyfer ymyriadau iechyd meddwl amenedigol/babanod a nodi elfennau SLC o'r ymyriadau hyn

Mae pob un o'r tri ymyriad a amlinellir isod yn ymyriadau iechyd meddwl rhieni sydd wedi'u nodi fel rhai effeithiol ar gyfer gwella sgiliau SLC i blant.

### Family Nurture Intervention (FNI)

**Lefel yr Ymyrraeth:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Rhieni plant a anwyd rhwng 26 a 34 wythnos yn y cyfnod beichiogrwydd.

**Dull cyflwyno:** Mae nyrsys gofal dwys newyddenedigol yn darparu hyfforddiant i rieni ar sail 1:1.

**Crynodeb o'r ymyrraeth:** Ei nod yw ailsefydlu cysylltiad emosiynol a chyd-reoleiddio ymreolaethol os amharir arnynt.

**Canlyniadau:** Gwelliant sylweddol mewn sgorau cyfathrebu gan ddefnyddio Bayley Scales of Infant Development (3ydd argraffiad) yn 18 mis oed wedi'i gywiro ar gyfer plant a gynhwyswyd yn y grŵp ymyrraeth o gymharu â'r grŵp rheoli.

### Learning Through Play Plus (LTP+)

**Lefel yr Ymyrraeth:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Mamau sydd wedi cael diagnosis o iselder gyda phlentyn rhwng 0 a 30 mis oed.

**Cull cyflwyno:** Yn cael ei gyflwyno gan weithwyr iechyd cymunedol i rieni mewn sesiynau grŵp (10 sesiwn, yn para 60 i 90 munud, dros 12 wythnos).

**Crynodeb o'r ymyrraeth:** Yn rhoi gwybodaeth i rieni am dwf a datblygiad iach eu plentyn tra'n hyrwyddo diogelwch ymlyniad ar yr un pryd.

**Canlyniadau:** Sgoriodd plant yn y grŵp ymyrraeth yn sylweddol uwch na phlant yn y grŵp rheoli gan ddefnyddio'r Holiadur Oedrannau a Chyfnodau.

## Video Interaction Project (VIP)

**Lefel yr Ymyrraeth:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Teuluoedd incwm isel ac yn fwyaf effeithiol ar gyfer mamau plant >6 mis oed sydd wedi cael diagnosis o iselder.

**Dull cyflwyno:** Darperir gan arbenigwr datblygiad plant sydd wedi'i hyfforddi yn y rhaglen ar sail 1:1. Hyd at 4 ymweliad yn para tua 30 munud y sesiwn.

**Crynodeb o'r ymyrraeth:** Mae rhieni yn cael fideo gyda'u plentyn ac mae'r fideo hwn yn cael ei adolygu ar y cyd gan yr ymarferydd a'r rhiant. Mae rhyngweithiadau cadarnhaol yn cael eu hamlygu a'u hatgyfnerthu.

**Canlyniadau:** Cynnydd mewn ymatebolrwydd rhieni i'r rhai yn y grŵp ymyrraeth sy'n defnyddio StimQ Infant Measure.

## Crynodeb o ymyriadau iechyd meddwl amenedigol/babanod

Roedd pob un o'r tri ymyriad yn effeithiol ar gyfer gwella SLC gyda phoblogaethau gwahanol. Mae LTP+ a VIP ill dau yn addas ar gyfer mamau sydd wedi cael diagnosis o iselder. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth yn yr ystyr y dangoswyd VIP fel un effeithiol pan fo plant o dan 6 mis oed, tra bod LTP+ wedi dangos effeithiolrwydd ar gyfer mamau lle mae'r plentyn hyd at 30 mis oed. Mae FNI yn effeithiol wrth gynyddu sgiliau SLC ar gyfer plant sy'n cael eu geni'n gynamserol (rhwng 26 a 34 wythnos beichiogrwydd). Mae tystiolaeth y gall canolbwyntio ar ryngweithio rhwng mamau a'u plentyn gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad SLC plant (Ghazi et al., 2021; Khan et al., 2018; Letourneau et al., 2011; Ochoa et al., 2021) .



## Amcan 2

### Adolygu'r dystiolaeth gyfredol o ymyriadau rhianta a nodi elfennau'r SLC o'r ymyriadau hyn

Mae'r tri ymyriad a nodir isod yn ymyriadau rhianta lle mae tystiolaeth eu bod yn effeithiol wrth wella sgiliau SLC plant.

### The Incredible Years Parent-Toddler Programme (IYPTP)

**Lefel yr Ymyrraeth:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Rhieni sy'n byw o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg gyda phlant rhwng 12 a 36 mis oed.

**Dull cyflwyno:** Wedi'i ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Mae 12 sesiwn grŵp dwy awr yr wythnos.

**Crynodeb o'r ymyrraeth:** Rhaglen addysg rhieni yn ymdrin ag wyth pwnc craidd; chwarae a gyfeirir gan y plentyn, hybu iaith plant bach, hyfforddi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, canmoliaeth ac anogaeth effeithiol, cymhellion digymell, trin ymwahaniadau, disgyblaeth gadarnhaol a gosod terfynau yn effeithiol.

**Canlyniadau:** Effaith gymedrol sylweddol ar ryngweithiadau iaith a arweinir gan blant ar gyfer y rhai yn y grŵp ymyrraeth.

### Infant Behavior Program (IBP)

**Lefel yr Ymyrraeth:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Teuluoedd incwm isel (roedd mwyafrif y teuluoedd yn yr astudiaeth o ethnigrwydd Sbaenaidd neu Ladinaidd).

**Dull cyflwyno:** Wedi'i ddarparu gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Un sesiwn addysgu a chwe sesiwn hyfforddi, pob un yn awr o hyd.

**Crynodeb o'r ymyrraeth:** Ei nod yw hyrwyddo rhyngweithiadau a gyfeirir gan y plentyn.

**Canlyniadau:** Cynyddodd mamau yn y grŵp ymyrraeth maint ac ystod eu hiaith. Fodd bynnag, 6 mis ar ôl yr ymyriad, nid oedd hyn yn arwyddocaol yn ystadegol o gymharu â'r grŵp rheoli.

## Newborn Behavioral Observations System (NBOS)

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Rhieni plant newydd-anedig, sy'n byw mewn cymunedau incwm isel, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

**Dull cyflwyno:** Wedi'i ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. O leiaf tair sesiwn ymweliad cartref awr o hyd nes bod y plentyn yn 12 wythnos oed.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Wedi'i gynllunio i gefnogi gofalwyr i ddatblygu eu perthnasoedd trwy ryngweithio â'u babanod newydd-anedig gan ddefnyddio arsylwadau.

**Canlyniadau:** Cynyddod sgorau cyfathrebu babanod newydd-anedig yn y grŵp ymyrraeth ar sail mesurau safonedig 6 mis yn dilyn ymyrraeth fwy na'r rhai yn y grŵp rheoli.

## Crynodeb o ymyriadau magu plant

Nodwyd bod pob un o'r tri ymyriad yn effeithiol ar gyfer plant sy'n byw o fewn teuluoedd incwm isel. Mae'r IYPTP yn cael ei gyflwyno o fewn lleoliad grŵp tra bod IBP a NBOS yn cael eu cyflwyno'n unigol i deuluoedd. Roedd y mesurau SLC ar gyfer pob un o'r ymyriadau yn wahanol ac felly ni ellir eu cymharu â'i gilydd. Dangosodd IYPTP ac IBP welliannau yn syth ar ôl yr ymyriad a dangosodd NBOS enillion mewn sgiliau SLC chwe mis ar ôl i'r ymyriad gael ei gwblhau.



## Amcan 3

### Adolygu'r dystiolaeth gyfredol ynghylch ymyriadau SLC sydd ar gael ar lefelau Cyffredinol, Poblogaeth a Thargededig.

Nodwyd naw ymyriad fel rhai oedd â thystiolaeth i ddangos eu heffeithiolrwydd o ran cynyddu sgiliau SLC. Cyflwynir pob un o'r ymyriadau mewn ffordd ychydig yn wahanol ac maent yn addas ar gyfer gwahanol grwpiau o blant. Amlinellir manylion pob un o'r ymyriadau isod.

### Attachment and Bio-behavioral catch-up (ABC)

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Plant rhwng 10 a 22 mis oed sy'n byw mewn gofal maeth.

**Dull cyflwyno:** Darperir gan rieni-hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Cyflwynwyd deg sesiwn awr o hyd i ofalwyr maeth yn y cartref.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Wedi'i gynllunio i gynyddu anogaeth rhieni mewn ymateb i drallod, cynyddu ymddygiadau sensitif ac ymatebol mewn ymateb i ddiffyg trallod ac i helpu rhieni i wasanaethu fel cyd-reoleiddwyr pan fydd plant yn cael eu gorlethu.

**Canlyniadau:** Twf sylweddol mewn geirfa ar gyfer plant yn y grŵp ymyrraeth.

### Attachment and Bio-behavioral catch-up Toddler (ABC-T)

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Plant rhwng 24 a 36 mis oed sy'n byw mewn gofal maeth.

**Dullcyflwyno:** Darperir gan rieni-hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y dull. Cyflwynwyd deg sesiwn awr o hyd i ofalwyr maeth yn y cartref.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Wedi'i gynllunio i gynyddu anogaeth rhieni mewn ymateb i drallod, cynyddu ymddygiadau sensitif ac ymatebol mewn ymateb i ddiffyg trallod ac i helpu rhieni i wasanaethu fel cyd-reoleiddwyr pan fydd plant yn cael eu gorlethu.

**Canlyniadau:** Cynnydd sylweddol yn nealltwriaeth plant o eirfa yn y grŵp ymyrraeth.

## Doors to Discovery

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel rhwng pedair a phum mlwydd oed.

**Dull cyflwyno:** Wedi'i gyflwyno gan athrawon dosbarth sydd wedi'u hyfforddi yn yr ymagwedd at y dosbarth cyfan.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Rhaglen sy'n adeiladu sylfaen o iaith lafar, ymwybyddiaeth ffonolegol, gwybodaeth yr wyddor a chysyniadau print a chariad at lyfrau.

**Canlyniadau:** Cynnydd sylweddol o ran deall iaith a defnyddio geirfa i blant mewn grŵp ymyrraeth.

## Early Talk Boost

**Lefel yr Ymyriad:** Wedi'i dargedu

**Yn addas ar gyfer:** Plant rhwng tair a phedair oed wedi'u nodi fel rhai ag elfen o SLCN

**Dull cyflwyno:** Wedi'i ddarparu gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar sydd wedi'u hyfforddi yn y dull o ymdrin â grwpiau o chwech i wyth o blant. Sesiynau a ddarperir deirgwaith yr wythnos am hyd at naw wythnos yn para 20 munud yr un.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Ymyriad grŵp bach wedi'i gynllunio i hybu sgiliau iaith plant cyn oed ysgol sydd wedi'i nodi ag elfen o SLCN.

**Canlyniadau:** Gwelliant sylweddol yn sgorau iaith plant yn y grŵp ymyrraeth.

## Infant Health and Development Program

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Rhieni babanod a anwyd cyn 37 wythnos beichiogrwydd, sy'n pwyso llai na 2500 gram.

**Dull cyflwyno:** Yn cael ei ddarparu gan weithwyr gofal iechyd sydd wedi'u hyfforddi yn y dull o gysylltu â rhieni ar sail unigol bob wythnos nes bod y plentyn yn un oed ac yna bob pythefnos nes bod y plentyn yn dair oed. Mae grwpiau cymorth rhieni misol hefyd yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhain.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Wedi'i ddatblygu i wella statws gwybyddol, ymddygiadol ac iechyd plant sy'n cael eu geni â phwysau geni isel.

**Canlyniadau:** Roedd gan blant yn y grŵp ymyrraeth sgôr IQ llafar uwch yn bump oed a dealltwriaeth uwch o eirfa yn wyth oed na phlant yn y grŵp rheoli. Roedd yr ymyriad yn fwyaf llwyddiannus ar gyfer plant a aned yn pwyso rhwng 2000g a 2499g

## Lets Begin with the Letter People

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth.

**Yn addas ar gyfer:** Plant pedair i bum mlwydd oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel.

**Dull cyflwyno:** Wedi'i gyflwyno gan athro dosbarth sydd wedi'i hyfforddi yn yr ymagwedd at y dosbarth cyfan. Neilltuir wythnos y tymor i un o 26 o unedau thematig.

**Crynodeb o ymyriad:** Cwricwlwm addysg gynnar sy'n defnyddio unedau thematig i ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd cynnar plant.

**Canlyniadau:** Roedd gan blant yn y grŵp ymyrraeth sgorau sylweddol yn uwch ar gyfer deall iaith a defnyddio geirfa.

## Nuffield Early Language Intervention (NELI)

**Lefel yr Ymyriad:** Wedi'i dargedu

**Yn addas ar gyfer:** Plant oed derbyn sydd wedi'u nodi fel rhai â rhyw elfen o SLCN.

**Cyflwyno:** Wedi'i ddarparu gan gynorthwyydd addysgu sydd wedi'i hyfforddi yn y dull gweithredu. Ymyrraeth grŵp bach am 30 munud yr wythnos ynghyd â 15 munud o ymyrraeth unigol. Yn cael ei gyflwyno am 20 wythnos ym mlwyddyn derbyn yn yr ysgol.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Rhaglen sy'n anelu at wella geirfa plant, datblygu eu sgiliau naratif, annog gwrando gweithredol a magu hyder wrth siarad yn annibynnol.

**Canlyniadau:** Mwy o gynnydd mewn sgorau ar draws ystod o fesurau SLC ar gyfer plant yn y grŵp ymyrraeth.

## Read, Play, Learn

**Lefel yr Ymyriad:** Poblogaeth

**Yn addas ar gyfer:** Plant pedair i bum mlwydd oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel.

**Dull cyflwyno:** Darperir gan staff addysg sydd wedi'u hyfforddi yn y dull. Yn cael ei ddanfon i grŵp o dri o blant mewn lleoliad tawel, bedwar diwrnod yr wythnos am gyfnod o ddau fis.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Datblygu geirfa trwy ymyriad sy'n addysgu geiriau trwy ddarllen llyfrau a chwarae llyfrau. Mae'n cynnwys darllen llyfrau yn uchel ac yna sesiwn chwarae gyda geirfa wedi'i thargedu wedi'i hamlygu trwy ddiffiniad ac wedi'i hategu gan ystumiau ac enghreifftiau.

**Canlyniadau:** Roedd gan blant yn y grŵp ymyrraeth fwy o dwf mewn gwybodaeth am eirfa ar gyfer y geiriau a dargedwyd yn ystod yr ymyriad.

## Story Friends

**Lefel yr Ymyriad:** Wedi'i dargedu

**Yn addas ar gyfer:** Nodwyd bod gan blant pedair i chwech oed elfen o SLCN.

**Dull cyflwyno:** Darperir gan athrawon a staff addysg. Gwrandawodd y plant yn unigol ar 13 stori gan ddefnyddio clustffonau. Gwrandawyd ar bob stori deirgwaith a chyflwynwyd gweithgareddau dosbarth yn ymwneud â'r storïau i'r dosbarth cyfan. Darparwyd strategaethau i'r cartref hefyd.

**Crynodeb o'r ymyriad:** Sesiynau gwrando rhyngweithiol i blant gan gynnwys 26 o lyfrau stori.

**Canlyniadau:** Cynyddodd geirfa'r plant yn y grŵp ymyrraeth.

## Crynodeb o ymyriadau SLC

Cynlluniwyd tri o'r ymyriadau SLC i'w darparu i blant y nodir bod ganddynt SLCN. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cyflwyno i'r plant mewn lleoliad addysg gyda Early Talk Boost yn targedu plant yn eu blwyddyn feithrin a NELI a Story Friends yn cael eu defnyddio gyda phlant yn eu blwyddyn derbyn. Mae tri ymyriad arall wedi'u cynllunio i'w cyflwyno o fewn lleoliadau addysg, Doors to Discovery, Let's Begin gyda'r Letter People a Read, Play, Learn. Mae gan yr ymyriadau hyn dystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Mae'r ymyriadau sy'n weddill hefyd wedi'u hanelu at lefel poblogaeth ar gyfer grwpiau penodol o blant. Mae gan ABC ac ABC-T dystiolaeth o fod yn effeithiol wrth wella sgiliau SLC plant sy'n byw mewn gofal maeth. Yn olaf, mae'r Infant Health and Development Programme yn effeithiol ar gyfer plant a anwyd cyn 37 wythnos beichiogrwydd ac a oedd yn pwyso llai na 2.5kg adeg eu geni.



# Casgliad

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn newid yn barhaus ac mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r ymchwil ar gael ar y dyddiad cyhoeddi. Mae pob un o'r ymyriadau a ddisgrifir uchod yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol, gyda rhai yn cael hap-dreialo wedi'u rheoli i gefnogi eu heffeithiolrwydd, ac eraill yng nghamau cynnar eu datblygiad.

Mae rhai o'r ymyriadau wedi'u cynllunio i gefnogi a hwyluso rhieni i ddatblygu sgiliau SLC eu plentyn. Mae eraill wedi'u cynllunio i gael eu darparu'n uniongyrchol i blant gan weithwyr addysg neu ofal iechyd proffesiynol. Mae gan bob plentyn ei amgylchiadau unigryw ei hun ac, o'r herwydd, bydd yn ymateb ac yn elwa o gyfres o ymyriadau sydd ar gael ar lefelau cyffredinol, poblogaeth a lefelau wedi'u targedu y gellir eu teilwra'n benodol ar eu cyfer. Mae'r argymhellion o'r adolygiad hwn yn cynnwys datblygu llwybr o ymyriadau sy'n cefnogi teuluoedd ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu.

Yng Nghymru, mae  llawer o blant yn caffael lleferydd ac iaith yn Gymraeg (naill ai'n gyfan gwbl neu ochr yn ochr â Saesneg a/neu ieithoedd eraill). Nid yw'r ymyriadau hyn wedi'u gwerthuso yn y cyd-destun hwn ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried gan fod datblygiad SLC plant dwyieithog neu amlieithog yn wahanol i blant sy'n siarad un iaith yn unig. Argymhellir bod ymyriad yn cael ei addasu o'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd neu ei ddatblygu ac yna ei dreialu a'i ddilysu yn y cyd-destun Cymreig.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47635, Digital ISBN 978-1-83504-210-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

